

❖ **GWARTH, GWERTH A GWYRTH Y NADOLIG****Darlleniad: Eseia 11:1–10**

Yn yr iaith Gymraeg, fe geir tri gair sy'n debyg iawn i'w gilydd o ran llythrennau a sain, ond yn wahanol iawn i'w gilydd o ran ystyr, a'r tri gair yw, '**gwarth**', '**gwerth**' a '**gwyrth**'. Yr hyn a wnawn heddiw yw defnyddio'r tri gair fel canllawiau i'n myfyrdod.

**Yn gyntaf: gwarth y Nadolig**

Rydym wedi dwyn cywilydd a gwarth arnom ein hunain drwy nifer o ffyrdd, ond y gwarth mwyaf yr ydym fel dynoliaeth wedi ei gyflawni yw gwrthod y trysor mwyaf a roddwyd inni. Mynegir hyn yn glir iawn yn Efengyl Ioan: *'Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono.'* Do yn wir, cafodd ei wrthod hyd yn oed yn faban bach, a hynny gan Herod, y brenin creulon hwnnw. Dyma'r adnodau:

*'Yna, pan ddeallodd Herod iddo gael ei dwyllo gan y seryddion, aeth yn gynddeiriog, a rhoddodd orchymyn i ladd pob bachgen ym Methlehem a'r holl gyffiniau oedd yn ddwyflwydd oed neu lai.'*

Canlyniad y weithred ddieflig hon oedd llef ingol y mamau ym Methlehem, a theimlir yr ing a'r dioddef yn y geiriau, *'Clywyd llef yn Rama, wylofain a galaru dwys; Rachel yn wylo am ei phlant, ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent mwy.'*

Mae hanes plant bach yn cael eu lladd gan filwyr Herod yn ein hatgoffa nad i fyd perffaith a thlysnï tangnefeddus y ganwyd Iesu, ond i fyd creulon a didostur. Ceisiwn anghofio hyn yn aml, drwy feddalau neges y Nadolig, a gwneud hanes geni Iesu Grist yn ddim mwy na stori dylwyth teg. Dyma beth yw rhamantu'r Nadolig, a rhoi'r argraff fod pawb yn derbyn y baban Iesu gyda breichiau agored a chalon gynnes. Ond nid yw'r Efengylau yn gwneud hynny o gwbl. Wrth gwrs, mae'r Efengylau yn tystio i'r croeso a gafodd y baban Iesu – y gorfoledd a brofodd Mair a Joseff, a'r llawenydd a lifodd o galonnau'r doethion a'r bugeiliaid wrth ei weld yn y preseb, ond mae Herod y brenin creulon hefyd yn rhan annatod o'r stori, ac yn ein hatgoffa mai i fyd creulon a didostur y ganwyd Iesu Grist.

Mae lladdfa'r diniwed a ddigwyddodd ym Methlehem Jwdea yn codi cwestiynau dwys iawn, megis, pam fod sawl teyrn wedi cael llaw rydd ar hyd yr oesau i ddifrodi a lladd y diniwed? Fe ddigwyddodd hynny ym Methlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac mae'n dal i ddigwydd yn ein byd heddiw. Yn wir, fe gyfyd y cwestiwn pam mai'r diniwed gan amlaf sy'n dioddef, a pham y caiff y teyrn bob rhyddid i gyflawni ei weithredoedd dieflig?

Mae'n gwestiwn anodd ei ateb, ac yn ein gwneud yn ymwybodol o'r grym dieflig sy'n gallu meddiannu pobl, a'u harwain i gyflawni troseddau arswydus. Cawn ein hatgoffa o hyn yn ddyddiol ar y cyfryngau ond, fel Cristnogion, daliwn i gredu fod gallu arall ar waith yn y byd ac ym mywydau pobl, a'r gallu hwnnw yw cariad achubol Duw yn Iesu Grist. Wrth gyflawni ei anfadwaith ar fechgyn bach ym Methlehem Jwdea, ychydig a feddyliodd Herod ei fod yn ymladd yn erbyn Mab Duw. Roedd y baban bach i'w weld yn gwbl ddiymadferth, ac eto yn y baban hwn yr oedd holl allu'r Duwdod yn bodoli. Fe fynegir hyn yn effeithiol iawn yn yr englyn canlynol:

'Er danfon o'r Herod ynyd – neges  
I'w farchogion gwaedlyd,  
Dwyfol Dywysog deufyd  
Sydd ben ar deyrnasoedd byd.'

Gorffennwn y rhan hon o'r neges gyda chwpled:

Llwyddo'n iawn ni allodd neb  
A ddibrisiodd ei breseb.'

Dibrisio Iesu Grist: gwareded ni rhag hynny, Gwarth y Nadolig.

**Yn ail: gwerth y Nadolig**

I ni Gristnogion, mae gwerth y Nadolig ynghlwm wrth y baban Iesu yn ei grud: *'... ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.'* Mae'r gwerth mae pobl yn ei roi ar y Nadolig yn amrywio'n fawr. Gwerth masnachol yw'r Nadolig i berchenogion y siopau mawr, ond i eraill, mae'n

gyfle i wario pres a phrynu'n ddiwedd. Mae gan Alice Evans yn ei llyfr, *Gyda'r Ifanc*, gerdd dan y teitl, 'Sut Nadolig gei di 'leni?', a dyma'r pennill cyntaf:

'Bydd rhai, ar ddydd Nadolig, â'u meddwl ar gael gwledd,  
Ond wedi'r holl loddesta, ceir tristwch ar eu gwedd;  
Fe ddathlant wyl y Geni, ond 'phrofant hwy mo'i hedd;  
A brofi di? O! dwed i mi, a brofi di?'

Beth yw gwerth cynnal yr wyl hon? Gallwn gynnig nifer o atebion. Y mae i'r wyl hon ei gwerth dyngarol, pan gawn gyfle i agor ein calon a chyfrannu i achosion da.

'Cofia'r gân, cofia'r geni – cofia Dduw  
Lle bynnag fyddi;  
Ac wrth gofio, dyro di  
Yn haelionus eleni.'

Y mae i'r wyl hon hefyd ei gwerth teuluol, pan fyddwn fel aelodau'r teulu yn ymgynnull ar ein haelwydydd. Daw'r plant adref dros y Nadolig i fwynhau cwmni'r teulu a mwynhau egwyl cyn ailafael yn eu gwaith ddechrau'r flwyddyn newydd. Mae'r uned deuluol a fframwaith cymdeithas dan fygythiad heddiw yn fwy nag erioed, ac mae pob math o broblemau trist yn brigo i'r wyneb. Felly, yn ddi-os, y mae gwerth teuluol i'r Nadolig, ond yr hyn sy'n rhoi gwir werth i'r cyfan yw'r ffaith ryfeddol fod Duw wedi gweld yn dda i ddod i'n byd ac i'n bywyd yn faban bach. Yn y gwasanaeth hwn, cawn gyfle i feddwl am hynny mewn gwirionedd ac i lawenhau cymaint a wnaeth Duw i ddyn. Elfed a ddywedodd:

'Caed baban bach mewn preseb  
drosom ni,  
a golau Duw'n ei wyneb  
drosom ni.'

### Darlleniad: Luc 2:1–7

#### Mae hyn yn ein harwain at y trydydd pwynt, sef gwyrth y Nadolig.

Mae genedigaeth pob baban yn wyrth, ac mae presenoldeb baban bach ar yr aelwyd yn cynhesu'n calon, ac yn ein llenwi â rhyfeddod a diolchgarwch. Yn ddi-os teimlai Mair a Joseff felly wrth syllu ar eu baban newydd-anedig. Fel pob genedigaeth, roedd y geni hwn ym Methlehem Jwdea yn naturiol iawn. Fe ddaeth Iesu i'r byd fel y daethom ninnau yn union.

'Wele, yn y preseb tlawd  
Un a anwyd inni'n Frawd.'

Fe gafodd Iesu ei eni i deulu cyffredin o Nasareth ond, i ni Gristnogion, roedd y geni hwn yn anghyffredin, oherwydd mai yng ngeni Iesu Grist y gwelwyd gwyrth yr oesau yn digwydd: '*A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd.*'

Mynegir hyn yn hyfryd yn y llinell, '*Daeth Duwdod mewn baban i'n byd*', ond tybed ai geiriau yn unig ydynt i ni? Yng nghanol anghrediniaeth ddifaol ein hoes, mae'n haws gofyn cwestiynau a bwrw amheuaeth na rhyfeddu mewn diolchgarwch. Dywedodd John Ruskin, '*I would rather live in a tiny cottage and wonder at everything than live in Warwick castle and wonder at nothing!*' Gadewch inni ddyheu o waelod calon gydag Ieuan Wyn, y bardd o Fethesda:

'O na welem y golud – a'i weled  
Gyda'r galon hefyd;  
Gweld y bach ac ildio byd

Am aur y mawr Ymyrryd.’

Dyma ryfeddod yn wir – Crëwr y byd i gyd – Crëwr Mair Forwyn ei hun yn gorwedd yn ei breichiau’n faban bach. Y mae’r Hollalluog, nad oes arno eisiau dim, yn gofyn am nodded dyn. Mae’r Gair yn gnawd ac mae Duw yn ddyn: ‘*Daeth Duwdod mewn baban i’n byd.*’ Dyma wyrth sydd y tu hwnt i’n deall, ac eto, dyma ddylanwad sy’n abl i chwyldroi bywyd pwy bynnag ohonom sy’n ymateb i’r cariad mwyaf rhyfedd fu erioed.

Gair i gloi. Yn ystod tymor yr Adfent, rydym wedi cael blas a bendith wrth ganu nifer o garolau. Ynddynt, fe’n harweinir i Fethlem Jwdea i ddathlu geni Mab Duw yn faban bach, ond y mae nifer ohonynt yn ein hatgoffa na allwn, hyd yn oed yng nghanol llawenydd Gŵyl y Geni, anghofio’r hyn a wnaeth Iesu Grist drosom ar Galfaria. Daw hyn yn glir yn emyn Eifion Wyn. Yn y pennill cyntaf, cyfeiria at ryfeddod y geni ym Methlehem:

‘Cofir mwy am Fethlem Jwda,  
testun cân pechadur yw;  
cofir am y preseb hwnnw  
fu’n hyfrydwch cariad Duw.’

Ond yn y trydydd pennill, mae’r emynydd yn ein tywys o Fethlem i Galfaria:

‘Cofir am y croesbren garw  
lle y cuddiwyd wyneb Duw,  
lle gorffennodd Iesu farw,  
lle dechreuais innau fyw;  
dwed o hyd pa mor ddrud  
iddo Ef oedd cadw’r byd.’

Wel, boed inni gofio hyn yng nghanol bwrlwm a llawenydd y Nadolig, ac ymateb i gariad anfeidrol Duw tuag atom yn Iesu Grist. Boed inni gofio hefyd nad digon oedd geni Iesu Grist i’r byd. Y mae’n rhaid ei eni heddiw yng nghalonau pobl, ac mae’n rhaid ei eni o’r newydd yn ein calonau ni. Gadewch inni felly ddisgwyl yn eiddgar amdano yn nhymor yr Adfent, gyda drysau’n calonau yn llydan agored, ein genau’n barod i glodfori ei enw, a’n dwylo’n awyddus i estyn iddo rodd ein bywyd. Yng ngeiriau John Morris-Jones:

‘Cymer, Arglwydd, cymer fi,  
byth, yn unig, oll i ti.’

Bendith y nef arnoch, a Nadolig Llawen ichi i gyd. Amen.

**John Lewis Jones**